OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1362 (Cy. 301)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020



| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 2.14 p.m. ar 27 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *ar 5.00 p.m. ar 27 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *am 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020* |



Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286) ac O.S. 2020/1329 (Cy. 295).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 2

## Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"Estonia"

"Latfia".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**4.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lle priodol mewnosoder—

"Aruba"

"Gweriniaeth Ddemocrataidd Timor-Leste"

"Gweriniaeth Kiribati"

"Gweriniaeth Vanuatu"

"Gwladwriaeth Annibynnol Samoa"

"Gwladwriaethau Ffederal Micronesia"

"Mongolia"

"Teyrnas Bhutan"

"Teyrnas Tonga"

"Ynysoedd Solomon".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 4, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, a

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 28 Tachwedd 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn rheoliad 4 at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 4 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 4, drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad neu'r diriogaeth yn wlad neu'n diriogaeth nad oedd yn esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad neu'r diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 3

## Diwygiadau i Ran 3 a hepgor Rhan 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a diwygiad canlyniadol

### Diwygiadau i Ran 3 (gofyniad i ynysu etc.) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**6.**—(1) Mae Rhan 3 (gofyniad i ynysu etc.) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9(2)(b), yn lle "38" rhodder "39".

(3) Hepgorer rheoliad 12A.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Darpariaeth arbed mewn cysylltiad â rheoliad 6(3)

**7.** Pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020, yr oedd rheoliad 12A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i berson, mae'r rheoliad hwnnw yn parhau i fod yn gymwys i'r person hwnnw er gwaethaf ei ddirymiad gan reoliad 6(3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

### Hepgor Rhan 3A (teithio o Ddenmarc) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a diwygiad canlyniadol

**8.**—(1) Hepgorer Rhan 3A (teithio o Ddenmarc) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(2) Mae rheoliad 14(1) yn Rhan 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn is-baragraff (c), ar y diwedd mewnosoder "neu";

(b) yn is-baragraff (f), hepgorer "neu";

(c) hepgorer is-baragraff (g).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 4

## Diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Diwygio paragraff 13 o Atodlen 2 (personau esempt)

**9.** Ym mharagraff 13(2)(c) o Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn lle "gan yr" rhodder "gan Weinidogion Cymru neu'r".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

# RHAN 5

## Diwygiadau i'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig

**10.**—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) i'r Rheoliadau Teithio Ryngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3, ar y diwedd mewnosoder—

"(n) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol – Meistri Ladbrookes."

(3) Ym mharagraff 7, ar y diwedd mewnosoder—

"(m) Motorsport UK – Pencampwriaeth Rali Groes Prydain a'r Bencampwriaeth Gefnogi."

(4) Ym mharagraff 10, ar y diwedd mewnosoder—

"(l) Taith Snwcer y Byd – Meistri'r Almaen;

(m) Taith Snwcer y Byd – Y Meistri;

(n) Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth y Chwaraewyr;

(o) Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth Agored Cymru."

(5) Ar ôl paragraff 24 mewnosoder—

"**25.** Nofio – Cyfarfod Rhyngwladol British Swimming."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 28.11.2020 am 4.00 a.m., gweler **rhl. 1(2)**

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 2.14 p.m. ar 27 Tachwedd 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Estonia a Latfia. Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Aruba, Gweriniaeth Ddemocrataidd Timor-Leste, Gweriniaeth Kiribati, Gweriniaeth Vanuatu, Gwladwriaeth Annibynnol Samoa, Gwladwriaethau Ffederal Micronesia, Mongolia, Teyrnas Bhutan, Teyrnas Tonga ac Ynysoedd Solomon at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 3 ac yn hepgor Rhan 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 14 yn Rhan 4 o'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Yn gyntaf, mae'n gwneud diwygiad technegol i reoliad 9 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cynnwys cyfeiriad at baragraff 39 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny. Yn ail, mae'n hepgor rheoliad 12A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n gosod rheolau arbennig ar unrhyw berson sy'n teithio o Ddenmarc ac aelodau o aelwyd y person hwnnw. Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth arbed mewn cysylltiad â hepgor rheoliad 12A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r ddarpariaeth arbed yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 6(3) o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 8 yn hepgor Rhan 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n gwahardd awyrennau a llestrau sy'n teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru. Mae hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 14 yn Rhan 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i hepgor y drosedd a gyflawnir drwy dorri gofynion rheoliad 12B(1) yn Rhan 3A o'r Rheoliadau hynny.

Nid yw Denmarc wedi ei chynnwys yn y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Felly, bydd yn dal yn ofynnol i deithwyr o Ddenmarc ynysu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn – yn rheoliad 9 – yn diwygio paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn pennu y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi bod gwaith yn "gwaith llywodraeth hanfodol" at ddibenion yr esemptiad i'r gofyniad i ynysu sydd yn y paragraff hwnnw.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn – yn rheoliad 10 – yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Caniateir i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol adael y man lle y mae'r person yn ynysu am nifer cyfyngedig o resymau. Nodir yr eithriadau hyn i'r gofyniad i ynysu yn rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ac maent yn cynnwys eithriad sy'n caniatáu i berson gymryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon a restrir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- Regulations revoked by S.I. 2022/315 Sch. para. 24
- reg. 1 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 2 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 3 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 4 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 5 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 6 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 7 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 8 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 9 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)
- reg. 10 coming into force by S.I. 2020/1362 reg. 1(2)